# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# SWYDDOGAETH Y PERCHENNOG ASEDAU GWYBODAETH - CANLLAW AR GYFER PENAETHIAID GWASANAETH

**Fersiwn: TERFYNOL V2**

## 1. Cyflwyniad

Gwybodaeth yw un o asedau mwyaf gwerthfawr y Cyngor. Mae rheoli gwybodaeth yn effeithiol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol megis Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'r canllaw yma yn ceisio esbonio swyddogaeth a chyfrifoldebau Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn y Cyngor. Perchnogion Asedau Gwybodaeth, fel arfer Penaethiaid Gwasanaeth, sy'n gyfrifol am yr asedau gwybodaeth yn eu maes gwasanaeth. Mae eu swydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn:

- **Cael ei nodi a'i gwerthfawrogi** yn ased
- **Cael ei diogelu a'i defnyddio mewn modd cyfreithlon, teg, a diogel**
- **Cael ei rheoli drwy gydol ei hoes**, o'i chreu i'w gwaredu
- **Cyfrifoldeb a rennir** er mwyn help i ddarparu'r gwasanaeth ac er budd y cyhoedd

Trwy ddilyn y canllaw yma, bydd modd i Berchnogion Asedau Gwybodaeth helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau statudol, lleihau perygl, a meithrin diwylliant sy'n gwerthfawrogi a diogelu gwybodaeth.

## 2. Beth yw pwrpas Perchnogion Asedau Gwybodaeth?

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei wybodaeth mewn modd cyfrifol a diogel. Cafodd y swydd ei chyflwyno yn dilyn Adolygiad Trin Data Swyddfa'r Cabinet ac mae'n parhau i fod yn rôl hanfodol heddiw am sawl rheswm:

- **Cydymffurfiaeth Gyfreithiol**
  Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r deddfau yma'n gofyn am atebolrwydd tryloyw o ran sut mae data yn cael ei gasglu, ei storio, ei rannu a'i waredu.

- **Rheoli Risg**
  Mae gwybodaeth yn ased hanfodol, os nad ydyn ni'n ofalus wrth ddefnyddio data, mae'n bosibl y bydd yn arwain at achosion o dorri rheolau data, colli enw da, cosbau ariannol, a cholli ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd y bydd risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli yn effeithiol.

- **Atebolrwydd a Threfniadau Llywodraethu**
  Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn sicrhau bod gan asedau gwybodaeth berchennog wedi'i enwi sy'n meddu ar ddealltwriaeth o werth yr ased, ei sensitifrwydd a'r peryglon cysylltiedig. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ac yn cryfhau trefniadau llywodraethu ar draws y Cyngor.

- **Ymddiriedaeth y Cyhoedd a Darparu Gwasanaethau**
  Trwy ddiogelu gwybodaeth a'i defnyddio mewn modd priodol, mae Perchnogion Asedau

Gwybodaeth yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd yng ngwasanaethau'r Cyngor ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio er budd y cyhoedd.

## 3. Pwy yw Perchnogion Asedau Gwybodaeth y Cyngor?

Uwch swyddogion y Cyngor sydd â’r cyfrifoldeb pennaf am yr asedau gwybodaeth yn eu maes gwasanaeth nhw yw Perchnogion Asedau Gwybodaeth y Cyngor. Mae'r cyfrifoldeb yma fel arfer wedi'i ddyrannu i **Benaethiaid Gwasanaeth** neu swyddogion uwch, a hynny gan fod gyda nhw'r awdurdod i wneud penderfyniadau mewn perthynas â sut mae gwybodaeth yn cael ei rheoli, ei rhannu, a'i diogelu.

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda:

- **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** - Sy’n darparu arweinyddiaeth gyffredinol mewn perthynas â risgiau a diogelu gwybodaeth.
- **Gweinyddwyr Systemau ac Arweinwyr Rhaglenni Busnes -** Rheoli systemau busnes allweddol a sicrhau bod trefniadau hawliau mynediad a chyfluniad yn cydlynu â gofynion diogelwch a llywodraethu.
- **Carfan Diogelwch Gwybodaeth TG** - Mae’r garfan yma’n darparu cyngor mewn perthynas â mesurau technegol a sefydliadol sydd ar gael er mwyn diogelu gwybodaeth. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau diogelwch.
- **Carfan Rheoli Gwybodaeth** - Mae’r garfan yma’n cynnig canllawiau, adnoddau a goruchwyliaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gofynion cyfreithiol.

Trwy bennu Perchnogion Asedau Gwybodaeth ar y lefel yma, mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn cael ei hymgorffori yn rhan o waith darparu’r gwasanaeth a bod cyfrifoldeb am risgiau sy’n gysylltiedig â gwybodaeth yn nwylo'r rheiny sy'n deall y cyd-destun gweithredol.

## 4. Swyddogaeth Perchennog Asedau Gwybodaeth

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer asedau gwybodaeth y Cyngor. Dyma swydd strategol sy’n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thrin fel adnodd gwerthfawr, yn cael ei rheoli yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau sefydliadol.

Mae agweddau allweddol o'r swydd yn cynnwys:

- **Perchnogaeth a Chyfrifoldeb**
  Unigolion sy'n cael eu henwi ac sy'n gyfrifol am yr asedau gwybodaeth yn eu maes gwasanaeth yw Perchnogion Asedau Gwybodaeth. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â sut mae gwybodaeth yn cael ei casglu, ei storio, a'i gwaredu.
- **Sicrwydd a Rheoli Risg**
  Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu nodi, eu hasesu, a'u rheoli yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo â gweithdrefnau llywodraethu a chyfrannu at ddatganiadau sicrwydd blynyddol.

- **Cydymffurfiaeth a Defnydd Moesol**
  Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw, yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018, a deddfwriaethau perthnasol eraill. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo defnyddio gwybodaeth mewn modd moesol er budd y cyhoedd.

- **Cydweithio**
  Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn gweithio gyda'r Garfan Diogelwch Gwybodaeth TG, gweinyddwyr systemau, a'r Garfan Rheoli Gwybodaeth er mwyn gweithredu mesurau rheoli addas a chynnal cydymffurfiaeth.

Trwy gyflawni'r dyletswyddau yma, mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn helpu'r Cyngor i ddiogelu ei wybodaeth, lleihau risgiau, a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

## 5. Cyfrifoldebau Craidd Perchennog Asedau Gwybodaeth

Mae gyda Pherchnogion Asedau Gwybodaeth swyddogaeth hanfodol o ran sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu rheoli mewn modd diogel, cyfreithlon, ac effeithiol. Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys:

1. **Nodi a Chofnodi Asedau Gwybodaeth**
   - Cynnal **Cofrestr Diogelu Data** cywir ar gyfer pob gweithgaredd prosesu.
   - Cofnodi manylion megis gweithgaredd prosesu, seiliau cyfreithiol, categorïau data personol, cyfnod cadw a.y.b.

2. **Rheoli Risgiau a Sicrhau Cydymffurfiaeth**
   - Asesu risgiau sy'n gysylltiedig â phob ased a rhoi rheolaethau addas ar waith.
   - Sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU a gofynion cyfreithiol eraill.
   - Gweithredu mesurau technegol a sefydliadol er mwyn diogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd.

3. **Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad yn Brydlon**
   - Rhoi gwybod am unrhyw achos posibl o dorri rheolau data, colli gwybodaeth neu fater diogelwch yn syth bin, yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.
   - Helpu i gynnal gwaith archwilio a gweithredoedd adferol.

4. **Rheoli Mynediad**
   - Diffinio a rheoli hawliau mynediad defnyddiwr yn seiliedig ar angen a sensitifrwydd y mater dan sylw.
   - Sicrhau bod mesurau diogelwch corfforol ac ar y system ar waith.

5. **Goruchwylio Trefniadau Rhannu Gwybodaeth**

- Sicrhau bod unrhyw achos o rannu gwybodaeth bersonol neu sensitif yn gyfreithlon ac yn cael ei gofnodi.
- Defnyddio Cytundebau Rhannu Gwybodaeth ffurfiol wedi'u cydlynu â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhGBC)

**6. Rhoi Trefniadau ar gyfer Cadw a Gwaredu Gwybodaeth ar Waith**

- Dilyn Polisi Cadw a Gwaredu'r Cyngor.
- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwaredu yn ddiogel pan nad oes eu hangen mwyach.

**7. Hyrwyddo Cyfleoedd Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth**

- Sicrhau bod staff sy'n cael mynediad at asedau gwybodaeth yn cwblhau'r hyfforddiant Diogelwch a Rheoli Gwybodaeth gofynnol.
- Hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a safonau defnydd derbyniol.

**8. Helpu i Sicrhau Parhad o ran Materion Digidol**

- Cynllunio ar gyfer newidiadau i'r system neu drefniadau mudo er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiadwy dros amser.

## 6. Trefniadau Llywodraethu ac Adrodd

Mae trefniadau llywodraethu cryf yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli yn gyson ar draws y Cyngor. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn rhan o'r fframwaith yma drwy ddarparu sicrwydd ac uwchgyfeirio materion lle bo angen.

**Uwchgyfeirio Peryglon ac Achosion**

- Rhaid uwchgyfeirio peryglon neu achosion o dorri rheolau data sylweddol yn brydlon i'r Garfan Rheoli Gwybodaeth a'r Garfan Diogelwch Gwybodaeth.
- Dylai Perchnogion Asedau Gwybodaeth sicrhau bod achosion yn cael eu cofnodi yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

**Adolygiadau Rheolaidd**

- Dylai Perchnogion Asedau Gwybodaeth adolygu eu Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn rheolaidd a'i diweddaru pryd bynnag y bydd systemau neu brosesau newydd yn cael eu cyflwyno.
- Dylai asesiadau o risgiau gael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran technoleg, deddfwriaeth, neu ddarpariaeth gwasanaeth.

**Archwilio a Sicrwydd**

- Mae’n bosibl y bydd gofyn i Berchnogion Asedau Gwybodaeth ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth yn ystod archwiliadau mewnol neu archwiliadau allanol.
- Mae cynnal cofnodion cywir ac arddangos cydymffurfiaeth â pholisïau yn hanfodol o ran sicrwydd.

## 7. Adnoddau Ategol

Er mwyn helpu Perchnogion Asedau Gwybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau, mae'r adnoddau a'r offer canlynol ar gael:

### Templedi a Chofrestrau

- **Templed Cofrestr Diogelu Data**
  Templed safonol ar gyfer cofnodi manylion pob gweithgaredd prosesu.
- **Polisi Cadw a Gwaredu a'r Pecyn Adnoddau cysylltiedig**
  Canllawiau yn ymwneud â pha mor hir y dylid cadw cofnodion a'r dulliau cymeradwyo er mwyn gwaredu diogel.

### Fframwaith Polisi'r Cyngor

Mae'r Cyngor wedi rhoi fframwaith polisi cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu Perchnogion Asedau Gwybodaeth i fynd ati i reoli gwybodaeth mewn modd diogel a chyfreithlon. Mae modd i hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Polisi Diogelu Gwybodaeth
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data
- Protocolau Rhannu Gwybodaeth
- Polisïau Defnydd Derbyniol

Mae'r polisïau yma yn nodi safonau a gweithdrefnau clir er mwyn trin asedau gwybodaeth drwy gydol eu cylch oes.

### Cyngor a Chymorth Mewnol

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cael eu cynorthwyo gan garfanau a swyddogion arbenigol sy'n darparu canllawiau ac arbenigedd:

- **Carfan Rheoli Gwybodaeth /** Swyddog Diogelu Data
  Mae'r garfan/swyddog yma'n darparu cyngor mewn perthynas â threfniadau llywodraethu o ran gwybodaeth, rhannu gwybodaeth a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU a deddfwriaethau diogelu data eraill.

- **Carfan Diogelwch Gwybodaeth / Swyddog Diogelwch Gwybodaeth**
  Mae'r garfan/swyddog yma'n cynnig canllawiau mewn perthynas â mesurau diogelwch technegol a sefydliadol, asesiadau risg, ac ymateb i ddigwyddiad er mwyn sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu diogelu rhag bygythiadau.

### Canllawiau Allanol

- ICO Accountability Framework – Information Asset Register (Saesneg yn Unig)
- Cabinet Office – Data Handling Procedures in Government (Saesneg yn Unig)
- National Archives – Digital Continuity and IAO Guidance (Saesneg yn Unig)